



**CPS WELSH LANGUAGE SCHEME  
CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y CPS**

## Contents

<b>1</b>	<b>Introduction</b>	<b>6</b>
<b>2</b>	<b>Our scheme</b>	<b>8</b>
<b>3</b>	<b>Responsibility for the scheme</b>	<b>10</b>
<b>4</b>	<b>Planning &amp; delivery of services</b>	<b>12</b>
<b>5</b>	<b>Interaction with other agencies</b>	<b>14</b>
<b>6</b>	<b>Dealing with the Welsh Speaking Public</b>	<b>16</b>
<b>7</b>	<b>The public image of the Crown Prosecution Service</b>	<b>22</b>
<b>8</b>	<b>Implementing the scheme</b>	<b>26</b>
<b>9</b>	<b>Monitoring</b>	<b>30</b>
<b>10</b>	<b>Publicising the scheme</b>	<b>32</b>
<b>11</b>	<b>Satisfaction</b>	<b>34</b>
	<b>Annex 1 – Implementation plan</b>	<b>36</b>
	<b>Annex 2 – Performance indicators</b>	<b>52</b>
	<b>Annex 3 – Complaints Procedure guidance</b>	<b>54</b>
	<b>Annex 4 – Crown Prosecution Service Welsh Language Scheme complaints procedure</b>	<b>60</b>

## Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
<b>2. Ein cynllun</b>	<b>9</b>
<b>3 Cyfrifoldeb am y cynllun</b>	<b>11</b>
<b>4. Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau</b>	<b>13</b>
<b>5. Rhyngweithio ag asiantaethau eraill</b>	<b>15</b>
<b>6 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg</b>	<b>17</b>
<b>7 Delwedd gyhoeddus Gwasanaeth Eryl y Goron</b>	<b>23</b>
<b>8 Gweithredu'r cynllun</b>	<b>27</b>
<b>9 Monitro</b>	<b>31</b>
<b>10 Rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun</b>	<b>33</b>
<b>11 Bodlonrwydd</b>	<b>35</b>
<b>Atodiad 1 – Cynllun gweithredu</b>	<b>37</b>
<b>Atodiad 2 – Dangosyddion perfformiad</b>	<b>53</b>
<b>Atodiad 3 – Canllaw i'r Drefn Gwynion</b>	<b>55</b>
<b>Atodaid 4 – Cynllun Iaith Gymraeg Gwasanaeth Eryl y Goron – trefn gwynion</b>	<b>61</b>

“The Crown Prosecution Service (CPS) has adopted the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales, it will treat the English and Welsh languages on a basis of equality. This scheme sets out how the CPS will give effect to that principle when providing services to the public in Wales.”

“Mae Gwasanaeth Eryl y Goron wedi mabwysiadu’r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg a’r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae’r cynllun hwn yn nodi sut y bydd Gwasanaeth Eryl y Goron yn gweithredu’r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i’r cyhoedd yng Nghymru.”

# CPS WELSH LANGUAGE SCHEME

## 1 INTRODUCTION

### The Crown Prosecution Service

- 1.1** The CPS consists of 42 Areas across England and Wales. It is headed by the Director of Public Prosecutions. The name of our organisation in Welsh is “Gwasanaeth Erlyn Y Goron”. The CPS is responsible for determining charges in all but the most minor criminal cases, and to prosecute all of the offences investigated by the Police across England and Wales.
- 1.2** All prosecutors in the CPS work to the same ‘Code for Crown Prosecutors’, and they apply the same guidelines and policies whether they are in England or Wales. The most important of these policies (i.e. the Code for Crown Prosecutors) is available in both Welsh and English.
- 1.3** The CPS in Wales consists of four Areas covering the Principality. The Areas are:
- i) Dyfed Powys [Carmarthen, main office; Haverfordwest and Newtown, sub offices];
  - ii) Gwent [Newport, sub office];
  - i iii) North Wales [Wrexham, main office; Colwyn Bay, sub offices];
  - i iv) South Wales [Cardiff, main office; Merthyr, Cardiff, Swansea, sub office].

The responsibility for applying the Welsh Language Scheme falls principally upon the CPS Areas in Wales since this scheme is intended to benefit those members of the public concerned with prosecutions within Wales.

- 1.4** The CPS takes decisions independently of the Police.  
The Superintending Minister for the CPS is HM Attorney General.

## CYNLLUN IAITH GYMRAEG Y CPS

### 1 CYFLWYNIAD

#### Gwasanaeth Erlyn y Goron

- 1.1** Mae gan y CPS 42 Rhanbarth ledled Cymru a Lloegr. Ein pennaeth yw'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus. Mae'r CPS yn gyfrifol am bennu cyhuddiadau ym mhob achos troseddol heblaw'r rhai lleiaf, ac am erlyn yr holl droseddau y bydd yr Heddlu ledled Cymru a Lloegr yn ymchwilio iddynt.
- 1.2** Bydd pob erlynydd yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron yn gweithio i'r un 'Côd ar gyfer Erlynwyr y Goron', ac maent yn cymhwyso'r un canllawiau a pholisïau boed nhw yng Nghymru neu yn Lloegr. Mae'r pwysicaf o'r polisïau hyn (h.y. y Côt ar gyfer Erlynwyr y Goron) ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 1.3** Mae'r CPS yng Nghymru yn cynnwys pedwar Rhanbarth. Dyma'r Rhanbarthau:
- i) Dyfed Powys [Caerfyrddin, prif swyddfa; Hwlfordd a'r Drenewydd, is-swyddfeydd].
  - ii) Gwent [Casnewydd, is-swyddfa];
  - iii) Gogledd Cymru [Wrecsam, prif swyddfa; Bae Colwyn, is-swyddfa];
  - iv) De Cymru [Caerdydd, prif swyddfa; Merthyr, Caerdydd, Abertawe, is-swyddfa].
- Rhanbarthau'r CPS yng Nghymru sy'n bennaf gyfrifol am gymhwyso'r Cynllun Iaith Gymraeg gan mai bwriad y cynllun yw bod o fudd i'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n ymwneud ag erlyniadau o fewn Cymru.
- 1.4** Bydd y CPS yn gwneud penderfyniadau yn annibynnol ar yr Heddlu. Y Gweinidog Arolygu dros y CPS yw'r Twrnai Cyffredinol.

### 2 OUR SCHEME

- 2.1** The CPS Welsh Language Scheme commits the CPS in Wales to support the principle of treating those in Wales who wish to use Welsh in the same way as those wishing to use English.
- 2.2** Everyone receiving a service from the CPS in Wales, or communicating with the Service, is able to do so through the medium of Welsh or English according to their personal choice.
- 2.3** The scheme encourages the use of the Welsh language in the internal administration of the Service and in its dealings with those other agencies within the Criminal Justice System in Wales.
- 2.4** The “general public” includes members of the legal professions and any particular group in Wales which has an interest in our services.
- 2.5** The CPS in Wales received the approval of the Welsh Language Board to the first version of its scheme on 26th November 1999. The existing scheme has therefore been in operation for over seven years and new developments have made it necessary to revise that scheme. The scheme could be considered a success since for the first time our aims and objectives could be set down clearly in a form approved by the Welsh Language Board. Whilst the scheme sets out broad statements of intent it is evident that it now needs up-grading to provide clear targets and monitoring systems, backed up with clear examples and guidelines to staff on how they should operate the scheme.
- 2.6** The aims of the scheme are as follows:
- To ensure that the skills of the workforce in the CPS in Wales are adequate to implement the scheme;
  - To raise awareness about the language choice for all those using the Criminal Justice System and how the CPS will assist in this language choice;
  - To encourage the CPS’ own staff in Wales to use the Welsh language on the basis of equality with English both internally and externally;
  - To encourage use of Welsh with our partner agencies in the Criminal Justice System.



## 2 EIN CYNLLUN

- 2.1** Dan Gynllun Iaith Gymraeg y CPS mae'r CPS yng Nghymru yn ymrwymo i gefnogi'r egwyddor o drin y bobl yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn yr un ffordd â'r bobl sy'n dymuno defnyddio Saesneg.
- 2.2** Bydd pawb sy'n derbyn gwasanaeth gan y CPS yng Nghymru, neu'n cysylltu â'r Gwasanaeth, yn gallu gwneud hynny trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis personol.
- 2.3** Mae'r cynllun yn annog defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y Gwasanaeth ac wrth iddo ddelio â'r asiantaethau eraill hynny o fewn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.
- 2.4** Mae'r "cyhoedd" yn cynnwys aelodau o'r proffesiynau cyfreithiol ac unrhyw grŵp penodol yng Nghymru sydd â diddordeb yn ein gwasanaethau.
- 2.5** Derbyniodd y CPS yng Nghymru sêl bendith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar fersiwn gyntaf ei gynllun ar 26 Tachwedd 1999. Bu'r cynllun presennol mewn grym ers dros saith mlynedd felly ac yn sgil datblygiadau newydd bu'n angenrheidiol diwygio'r cynllun hwnnw. Gellid ystyried y Cynllun yn llwyddiant oherwydd am y tro cyntaf fe ellid disgrifio ein nodau a'n hamcanion yn glir am y tro cyntaf, mewn ffurf a gymeradwyir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Er bod y cynllun yn pennu datganiadau eang o fwriad, y mae'n amlwg bod angen ei uwchraddio bellach i roi targedau a systemau monitro clir, wedi'i ategu ag enghreifftiau a chanllawiau clir i staff ynghylch sut y dylent weithredu'r cynllun.
- 2.6** Dyma nodau'r Cynllun:
- Sicrhau bod sgiliau'r gweithlu yn y CPS yng Nghymru yn ddigonol i weithredu'r cynllun;
  - Codi ymwybyddiaeth o'r dewis iaith ymhlith pawb sy'n defnyddio'r System Cyfiawnder Troseddol a sut bydd y CPS yn cynorthwyo yn y dewis iaith hwn;
  - Annog staff y CPS ei hun yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg ar sail cydraddoldeb gyda'r Saesneg yn fewnol ac allanol;
  - Annog defnyddio'r Gymraeg gyda'n hasiantaethau partner yn y System Cyfiawnder Troseddol.

### 3 RESPONSIBILITY FOR THE SCHEME

- 3.1** The four Chief Crown Prosecutors (Dyfed Powys, Gwent, South Wales and North Wales) have overall responsibility for the operation of this scheme within their Areas. Their names and addresses are set out below.

**Jim Brisbane, Chief Crown Prosecutor, CPS Dyfed Powys, Heol Penlanffos, Carmarthen, Dyfed SA31 2EZ** DX: 742440 Carmarthen 9 Tel: 01267 242100 Fax: 01267 242133

**David Archer, Chief Crown Prosecutor, CPS Gwent, Vantage Point, Tŷ Coch Way, Cwmbran, Gwent NP44 7XX** DX: 743270, Cwmbran 4 Tel: 01633 261101 Fax: 01633 261106

**Christopher Woolley, Chief Crown Prosecutor, CPS South Wales, 20th Floor, Capital Tower, Greyfriars Road, Cardiff CF10 3PL** DX: 33056 Cardiff 1 Tel: 029 20 803902 Fax: 029 20 803906

**Ed Beltrami, Chief Crown Prosecutor, CPS North Wales, Bromfield House, Ellice Way, Wrexham LL13 7YW** DX: 723100 Wrexham 5 Tel: 01978 346000 Fax: 01978 346052

The four Chief Crown Prosecutors are assisted in the operation of the scheme by the Welsh Language Committee which consists of CPS members of staff from all four Areas of Wales.

### 3 CYFRIFOLDEB AM Y CYNLLUN

- 3.1** Pedwar Prif Erlynydd y Goron (Dyfed Powys, Gwent, De Cymru a Gogledd Cymru) fydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r cynllun hwn o fewn eu Rhanbarthau. Isod mae eu henwau a'u cyfeiriadau.

**Jim Brisbane, Prif Erlynydd y Goron**, CPS Dyfed Powys, Heol Penlanffos, Caerfyrddin, Dyfed SA31 2EZ DX: 742440 Caerfyrddin 9 Ffôn: 01267 242100 Ffacs: 01267 242133

**David Archer, Prif Erlynydd y Goron**, CPS Gwent, Vantage Point, Ffordd Tŷ Coch, Cwmbran, Gwent NP44 7XX DX 743270, Cwmbran 4 Ffôn: 01633 261101 Ffacs: 01633 261106

**Christopher Woolley, Prif Erlynydd y Goron**, CPS De Cymru, 20fed Llawr, Capital Tower, Greyfriars Road, Caerdydd CF10 3PL DX: 33056 Caerdydd 1 Ffôn: 029 20 803902 Ffacs: 029 20 803906

**Ed Beltrami, Prif Erlynydd y Goron**, CPS Gogledd Cymru, Tŷ Bromfield, Ellice Way, Wrecsam LL13 7YW DX: 723100 Wrecsam 5 Ffôn: 01978 346000 Ffacs: 01978 346052

Bydd pedwar Prif Erlynydd y Goron yn cael eu cynorthwyo i weithredu'r cynllun gan Bwyllgor yr Iaith Gymraeg sy'n cynnwys aelodau o staff y CPS yn y pedwar Rhanbarth yng Nghymru.

### 4. PLANNING & DELIVERY OF SERVICES

#### New Policies and Initiatives

**4.1** In formulating new policies and initiatives we will promote and facilitate the use of Welsh wherever possible. When developing new policies and initiatives or when applying government policies and initiatives to the CPS and its work in Wales, we will have regard to the consequences of such initiatives on the use of the Welsh Language and the Welsh Language Scheme. We will promote the use of the Welsh Language in the internal administration of the CPS and in its dealings with external bodies and offices providing services to the public in Wales. In order to assess the impact of our obligations under the Welsh Language Scheme, and our success in meeting these obligations, we will use an assessment tool which gives regard to the Welsh Language Board's 'Advice on Mainstreaming the Welsh Language'. We will ensure that staff and advisors involved in policy formulation are aware of the scheme and of the responsibility of the CPS under the Welsh Language Act. We will not alter the scheme without the Welsh Language Board's agreement.

**4.2** The policies and initiatives which the CPS is currently pursuing, and will pursue over the next two years, are as follows:

- Promoting the greater use of Higher Court Advocates in the Crown Court, and of Associate Prosecutor in the magistrates' court;
- Pre charge advice given to the police at the police station for suspects charged in all but minor cases;
- Providing witness care to witnesses for the prosecution in criminal trials in both magistrates' and Crown Court;
- Administering conditional cautions to suspects as a diversion from court;
- Promoting measures to tackle domestic violence.

We will raise the awareness of policy makers of the scheme through the Equality and Diversity Unit of the CPS based in London and through the Equality and Diversity Officer in Wales. The Chief Crown Prosecutors in Wales will raise awareness with reference to the Policy Directorates in London. The timescales for raising concerns will be three months before the publication of the Annual Report from the CPS to the Board to allow for that report to comment on resolution of the problem or not.

We will ensure that users of the services of the CPS will be able to receive services through the medium of Welsh from any of our offices in Wales. Welsh speaking staff will be available to provide that service. In accordance with the principles of our Equality and Diversity policy the CPS will deliver an equally high service in Welsh as in English, and will state this in its Business Plan.

## 4. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU

### Polisiau a Mentrau Newydd

**4.1** Wrth ffurfio polisiau a mentrau newydd byddwn yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg ble bynnag y bydd modd. Wrth ddatblygu polisiau a mentrau newydd neu wrth gymhwyso polisiau a mentrau'r llywodraeth at y CPS a'i waith yng Nghymru, byddwn yn ystyried canlyniadau mentrau o'r fath ar ddefnyddio'r Iaith Gymraeg a'r Cynllun Iaith Gymraeg. Byddwn yn hybu defnyddio'r Iaith Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y CPS ac yn ei ymwneud â chyrrff allanol a swyddfeydd sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Er mwyn asesu effaith ein rhwymedigaethau dan y Cynllun Iaith Gymraeg, a'n llwyddiant yn bodloni'r rhwymedigaethau hyn, byddwn yn ymarfer dull asesu gan roi sylw i Gyngor Prif Ffrydio Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Byddwn yn sicrhau bod staff a chynghorwyr sy'n ymwneud â llunio polisiau yn ymwybodol o'r cynllun a chyfrifoldeb y CPS dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Ni fyddwn yn newid y cynllun heb gytundeb Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

**4.2** Dyma'r polisiau a'r mentrau y mae'r CPS yn eu dilyn ar hyn o bryd, ac y bydd yn eu dilyn dros y 2 flynedd nesaf:

- Hybu mwy o ddefnydd o Adfocadau Llysoedd Uwch yn Llys y Goron, ac Erlynwyr Cyswllt yn y Llysoedd Ynadon;
- Rhoi cyngor cyn cyhuddo i'r heddlu yng ngorsaf yr heddlu ar gyfer pobl dan amheuaeth a gyhuddir, ym mhob achos heblaw'r rhai lleiaf;
- Darparu gofal tystion i dystion ar ran yr erlyniad mewn treialon troseddol yn y Llysoedd Ynadon a hefyd yn Llys y Goron;
- Gweinyddu rhybuddiadau amodol i bobl dan amheuaeth fel ffordd o ddargyfeirio rhag gorfod mynd i'r llys;
- Hybu mesurau i fynd i'r afael â thrais yn y cartref.

Byddwn yn codi ymwybyddiaeth llunwyr polisiau at y cynllun trwy Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS a leolir yn Llundain a thrwy'r Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yng Nghymru. Bydd Prif Erlynwyr y Goron yng Nghymru yn codi ymwybyddiaeth gan gyfeirio at y Cyfarwyddiaethau Polisi yn Llundain. Yr amserlen ar gyfer nodi pryderon fydd 3 mis cyn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol y CPS i'r Bwrdd er mwyn caniatáu i'r adroddiad hwnnw roi sylwadau ar ddatrys y broblem neu ddim.

Byddwn yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'r CPS yn gallu derbyn gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg gan unrhyw rai o'n swyddfeydd yng Nghymru. Bydd staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw. Yn unol â'r egwyddorion yn ein polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, bydd y CPS yn cyflwyno gwasanaeth o ansawdd cyfatebol uchel yn Gymraeg a Saesneg, a bydd yn datgan hyn yn ei Gynllun Busnes.

### 5. INTERACTION WITH OTHER AGENCIES

- 5.1** The CPS fully accepts the principle that each Criminal Justice Agency has a responsibility for liaising with and advising other criminal justice agencies about the language choice of a user of its services.
- 5.2** In furtherance of this principle the CPS will identify the language choice of the user of its services at the earliest opportunity, namely when the CPS charging lawyer is giving advice to the police on charge. If language choice is not apparent the CPS lawyer will prompt the Police before charging to ascertain it. We will work with our criminal justice partners to ensure a robust and efficient process of transferring details of language choice is in place. Please see paragraph 6.9 for a full description of the process.
- 5.3** During the progress of the case after charge the CPS will inform the Court Service at the earliest opportunity of the language choice of the user of Court Services. The CPS will use for this purpose the account of the Charging decision (Form MG3) together with knowledge received by the Witness Care Unit in conducting a needs assessment of the witness. A short handbook has been prepared for use by the Witness Care Unit to explain language choice. Throughout this process it will cooperate with Police to ensure language continuity and the transferral of information. The CPS will create a directory of Welsh speakers which will be up-dated regularly.

## 5. RHYNGWEITHIO AG ASIANTAETHAU ERAILL

- 5.1** Mae'r CPS yn llwyr dderbyn yr egwyddor bod pob Asiantaeth Cyfiawnder Troseddol yn gyfrifol am gysylltu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill a'u hysbysu am ddewis iaith defnyddwyr ei wasanaethau.
- 5.2** Er mwyn hyrwyddo'r egwyddor hon bydd y CPS yn nodi dewis iaith y defnyddwyr cyn gynted â phosib, sef pan fydd cyfreithydd cyhuddo y CPS yn rhoi cyngor i'r heddlu ynghylch cyhuddiad. Os na fydd dewis iaith yn amlwg bydd cyfreithydd y CPS yn annog yr Heddlu i ofyn cyn cyhuddo. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid cyfiawnder troseddol i sicrhau bod proses gadarn ac effeithlon ar gael i drosglwyddo manylion dewis iaith. Gweler paragraff 6.9 am ddisgrifiad llawn o'r broses.
- 5.3** Yn ystod cynnydd yr achos ar ôl cyhuddo bydd y CPS yn hysbysu'r Gwasanaeth Llys cyn gynted â phosib am ddewis iaith y sawl sy'n defnyddio'r Gwasanaethau Llys. I'r perwyl hwn, bydd y CPS yn defnyddio'r cofnod o'r penderfyniad Cyhuddo (Ffurflen MG3) ynghyd â gwybodaeth a dderbynnir gan yr Uned Gofal Tystion wrth gynnal asesiad anghenion y tyst. Paratowyd llawlyfr byr er defnydd yr Uned Gofal Tystion i egluro mater dewis iaith. Drwy gydol y broses hon fe fydd yn cydweithredu â'r Heddlu i sicrhau bod yr iaith honno'n parhau i gael ei defnyddio a bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo. Bydd y CPS yn llunio cyfeirlyfr o siaradwyr Cymraeg a fydd yn cael ei ddiweddarau'n gyson.

# 6 DEALING WITH THE WELSH SPEAKING PUBLIC

### Correspondence

- 6.1** The CPS welcomes letters in Welsh. When someone writes to us in Welsh about our services we will reply in Welsh. The reply will be given within 10 working days which is the same time limit as applies to correspondence in English. Where we are not able to provide a substantive reply within 10 days we will acknowledge and give an explanation as to the delay. The fact that correspondence is carried forward through the medium of Welsh will not in itself lead to any delay.
- 6.2** We will establish the language preference of an individual at the first point of contact and we will make a record of this preference for future use. The first point of contact will be either at the Charging decision stage or when the Witness Care Unit ascertains the language choice (see 5.3 above). When we write a letter to an individual, a group or organisation which we know works mainly in the Welsh language or prefers to receive letters in Welsh we will write in Welsh. When providing pre-charge advice to the police the CPS lawyer will identify the language choice of the defendant, victim or witnesses.

### Telephone Calls

- 6.3** The CPS in Wales will provide a Welsh telephone service to its users. We will answer the telephone in Wales with a standardised bi-lingual greeting. When the caller wishes to speak Welsh, the operator will connect the call to a Welsh speaker within the CPS to deal with the enquiry. Each office will maintain a list of Welsh speakers to whom the call can be directed. Existing operators will be trained to provide the name of the organisation and the welcome in Welsh as well as English. Answer phones will be programmed to give a response both in Welsh and English. The CPS does not presently have additional messages in Welsh to callers (e.g. that calls will be monitored) but if these are introduced then they will be bilingual.

### Face to Face Communication

- 6.4** Anyone who wishes, or who is required, to have a face to face interview with a member of the CPS is able and welcome to do so in Welsh within any of the CPS offices in Wales. The CPS recognises the importance of face to face communications with members of the public who come into contact with the CPS. Some of these meetings may be extremely significant (e.g. the relatives of a person who has died as a homicide victim, or as victim of a road traffic incident) and the CPS recognises that language choice is most important for members of the public to express themselves properly. If the CPS officer conducting the meeting or interview is unable to speak Welsh we will arrange for an interpreter to be present.



## 6 DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

### Gohebiaeth

- 6.1** Mae'r CPS yn croesawu llythyrau yn Gymraeg. Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg am ein gwasanaethau fe fyddwn yn ateb yn Gymraeg. Byddwn yn ateb o fewn deg diwrnod gwaith, sef yr un terfyn amser ag sy'n berthnasol i ohebiaeth yn Saesneg. Pan na fyddwn yn gallu rhoi ateb sylweddol o fewn deg diwrnod fe fyddwn yn cydnabod yr oedi ac esbonio hynny. Ni fydd y ffaith ein bod yn gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg yn arwain at unrhyw oedi.
- 6.2** Byddwn yn sefydlu dewis iaith yr unigolyn wrth ddod i gysylltiad am y tro cyntaf a byddwn yn cofnodi'r dewis hwn ar gyfer y dyfodol. Bydd y cyswllt cyntaf un ai yn ystod cam y penderfyniad Cyhuddo neu pan fydd yr Uned Gofal Tystion yn canfod y dewis iaith (gweler 5.3 uchod). Pan fyddwn yn ysgrifennu llythyr at unigolyn, grŵp neu sefydliad y gwyddwn eu bod yn gweithio'n bennaf yn Gymraeg neu y mae'n well ganddynt dderbyn llythyrau yn Gymraeg, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg. Wrth ddarparu cyngor cyn cyhuddo i'r heddlu, bydd cyfreithydd y CPS yn nodi dewis iaith y diffynnydd, y dioddefwr neu'r tystion.

### Galwadau Ffôn

- 6.3** Bydd y CPS yng Nghymru yn darparu gwasanaeth ffôn Cymraeg i'w ddefnyddwyr. Byddwn yn ateb y ffôn yng Nghymru gyda chyfarfod dwyieithog. Pan fydd y sawl sy'n ffonio yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y cysylltydd yn trosglwyddo'r alwad at siaradwr Cymraeg o fewn y CPS i ddelio â'r ymholiad. Ym mhob swyddfa fe fydd rhestr o siaradwyr Cymraeg y gellir cyfeirio'r alwad atynt. Bydd cysylltyddion presennol yn cael eu hyfforddi i roi enw'r sefydliad a'r croeso yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Bydd peiriannau ateb yn cael eu rhaglennu i roi ymateb yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar hyn o bryd nid oes gan y CPS negeseuon ychwanegol yn Gymraeg ar gyfer pobl sy'n ffonio (e.e. yn dweud y bydd galwadau'n cael eu monitro) ond os bydd y rhain yn cael eu cyflwyno fe fyddant yn ddwyieithog.

### Cyfathrebu Wyneb yn Wyneb

- 6.4** Os bydd unrhyw un yn dymuno, neu'n gorfod, cael cyfweiliad wyneb yn wyneb ag aelod o'r CPS, bydd yn gallu gwneud hynny a bydd croeso iddo ef neu hi wneud hynny yn Gymraeg o fewn unrhyw swyddfa'r CPS yng Nghymru. Mae'r CPS yn cydnabod pwysigrwydd cyfathrebu wyneb yn wyneb ag aelodau'r cyhoedd sy'n dod i gysylltiad â'r CPS. Gall rhai o'r cyfarfodydd hyn fod yn hynod arwyddocaol (e.e. perthnasau person a laddwyd o ganlyniad i drosedd neu mewn digwyddiad traffig y ffyrdd) ac mae'r CPS yn cydnabod bod dewis iaith yn hynod bwysig er mwyn i aelodau'r cyhoedd eu mynegi eu hunain yn briodol. Os bydd swyddog y CPS sy'n cynnal y cyfarfod neu'r cyfweiliad yn methu siarad Cymraeg, byddwn yn trefnu i gyfieithydd fod yn bresennol.

- 6.5** We will display Cymraeg – English notices at all our offices. Information signs in and around the buildings of the CPS in areas where the public might visit will be bi-lingual. Members of the CPS who are Welsh speakers will wear a badge when they are likely to be in contact with Welsh speaking members of the public to indicate that they are themselves Welsh speakers.

### **Public Meetings**

- 6.6** Whenever we hold a public meeting we will publicise the event using bi-lingual notices and invitations. At any of our public meetings in Wales those attending are welcome to speak in Welsh. In those areas where the use of Welsh dominates, and where it is likely that the people who attend will want to use the Welsh language we will arrange for professional translators to be present. In those areas where Welsh is not the predominant language we will invite those attending to notify the office in advance if they wish to use Welsh in which case simultaneous interpretation facilities will be provided.

### **Crown Prosecution Service Website and Email**

- 6.7** Communication received by way of email will be treated exactly the same way as communications written in hard copy. All standardised contact details and general notices appended to e mails will be in English and Welsh.
- 6.8** The website of the CPS is maintained by the Headquarters of the CPS in London. Whilst not all the information on this website will be translated into Welsh the main Codes of Practice and Policy Statements will be translated into Welsh. The four Welsh CPS Areas are currently developing a website specifically for the use of its users in Wales, and which will contain information of particular relevance to those users. This website will be entirely bi-lingual. The CPS will follow the recommendations made by the Welsh Language Board with regard to bilingual websites.

### **Speaking Welsh in the Courts**

- 6.9** Section 21 (1) of the Welsh Language Act 1993 provides that: “in any legal proceedings in Wales the Welsh language may be spoken by any party, witness or other person who desires to use it, subject in the case of proceedings in the court other than a magistrates’ court to such prior notice as may be required by rules of court; and any necessary provision or interpretation shall be made accordingly”.

- 6.5** Byddwn yn arddangos hysbysiadau Cymraeg – English ym mhob un o'n swyddfeydd. Yn y rhannau hynny o adeiladau'r CPS ac o'u cwmpas ble gallai'r cyhoedd ymweld, bydd arwyddion hysbysrwydd yn ddwyieithog. Bydd aelodau'r CPS sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodyn pan fyddant yn debygol o fod mewn cysylltiad ag aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg er mwyn dangos eu bod hwythau'n siaradwyr Cymraeg.

### **Cyfarfodydd Cyhoeddus**

- 6.6** Pryd bynnag y byddwn yn cynnal cyfarfod cyhoeddus, byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad gan ddefnyddio hysbysiadau a gwahoddiadau dwyieithog. Yn unrhyw rai o'n cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru, bydd croeso i'r mynychwyr siarad yn Gymraeg. Yn yr ardaloedd hynny ble bydd y defnydd o'r Gymraeg flaenaf, a ble bydd hi'n debygol y bydd y bobl sy'n mynychu eisiau defnyddio'r Iaith Gymraeg, byddwn yn trefnu i gyfieithwyr proffesiynol fod yn bresennol. Yn y rhannau hynny ble nad yw'r Gymraeg yn flaenllaw, byddwn yn gwahodd y rhai a fydd yn mynychu i roi gwybod ymlaen llaw i'r swyddfa os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Os felly, byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd.

### **Gwefan ac E-bost Gwasanaeth Erllyn y Goron**

- 6.7** Bydd negeseuon e-bost a ddaw i law yn cael eu trin yn union yr un ffordd â negeseuon a ysgrifennir ar bapur. Bydd yr holl fanylion cyswllt safonol a hysbysiadau cyffredinol a atodir wrth negeseuon e-bost yn Saesneg a Chymraeg.
- 6.8** Pencadlys y CPS yn Llundain sy'n cynnal gwefan y CPS. Er na fydd yr holl wybodaeth ar y wefan hon yn cael ei chyfieithu i Gymraeg, bydd y prif Godau Ymarfer a Datganiadau Polisi yn cael eu cyfieithu i Gymraeg. Ar hyn o bryd mae pedwar Rhanbarth y CPS yng Nghymru wrthi'n datblygu gwefan yn benodol ar gyfer y defnyddwyr yng Nghymru, a bydd yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i'r defnyddwyr hynny. Bydd y wefan hon yn hollol ddwyieithog. Bydd y CPS yn dilyn argymhellion Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran gwefannau dwyieithog.

### **Siarad Cymraeg yn y Llysoedd**

- 6.9** Mae Adran 21 (1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn datgan: "mewn unrhyw achosion cyfreithiol yng Nghymru gellir siarad Cymraeg gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sy'n dymuno'i defnyddio, yn ddarostyngedig mewn achosion llys heblaw llys ynadon i'r cyfryw rybudd ymlaen llaw ag a fydd yn ofynnol yn ôl rheolau'r llys; a gwneir unrhyw ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer cyfieithu yn unol â hyn".

**6.10** Where a defendant or witness or any other party to the proceedings wishes to speak in Welsh in court they have a right to do so. The CPS recognises that the CPS, the Police, and the Courts have to cooperate from the earliest stages in order to provide the defendant or witness with the necessary assistance and information for them to exercise their right to speak Welsh in Court. The CPS will learn of the language choice of a defendant or a victim/witness through either the Charging process or through the needs assessment carried out by the Witness Care Unit. If the CPS has learnt of the language choice of a defendant or witness we will supply the necessary information to the Courts at the first hearing in the pre-trial process in the magistrates' court, and at the preliminary hearing in the Crown Court (for indictable cases) in the Crown Court or at the plea and case management hearing in the Crown Court (for all other cases). Where the CPS knows in advance that any party wishes to speak Welsh we will provide a Welsh speaking prosecutor. Where the main language spoken in the community is Welsh we aim to provide a Welsh speaking prosecutor in the magistrates' courts serving that community. Where this cannot be done in the magistrates' court we will speak through a court interpreter. Where the CPS knows that any party wishes to speak Welsh in the Crown Court we will instruct a Welsh speaking Advocate.

**6.10** Os bydd diffynnydd neu dyst neu unrhyw barti arall yn yr achos yn dymuno siarad Cymraeg yn y llys, mae ganddynt hawl i wneud hynny. Mae'r CPS yn cydnabod bod yn rhaid i i'r CPS, yr Heddlu, a'r Llysoedd gydweithredu o'r camau cyntaf er mwyn rhoi'r cymorth angenrheidiol i'r diffynnydd neu'r tyst iddynt ymarfer eu hawl i siarad Cymraeg yn y Llys. Bydd y CPS yn cael gwybod am ddewis iaith diffynnydd neu ddiodefwr/tyst un ai trwy'r broses Gyhuddo neu drwy asesiad anghenion a gynhelir gan yr Uned Gofal Tystion. Os bydd y CPS wedi cael gwybod am ddewis iaith diffynnydd neu dyst fe fyddwn yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'r Llysoedd yn y gwrandawriad cyntaf yn y broses cyn treial yn y Llys Ynadon, ac yn y gwrandawriad rhagarweiniol yn Llys y Goron (ar gyfer achosion ditiol) neu yn y gwrandawriad ple a rheoli achos yn Llys y Goron (ar gyfer pob achos arall). Os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwybod ymlaen llaw bod unrhyw barti yn dymuno siarad Cymraeg, byddwn yn darparu erlynydd sy'n siarad Cymraeg. Os mai'r Gymraeg yw'r brif iaith a siaredir yn y gymuned, byddwn yn anelu at ddarparu erlynydd sy'n siarad Cymraeg yn y llysoedd ynadon sy'n gwasanaethu'r gymuned honno. Os na ellir gwneud hyn yn y llys ynadon, byddwn yn siarad trwy gyfieithydd y llys. Os bydd y CPS yn gwybod bod unrhyw barti yn dymuno siarad Cymraeg yn Llys y Goron, byddwn yn cyfarwyddo Bargyfreithiwr Cymraeg.

## **7 THE PUBLIC IMAGE OF THE CROWN PROSECUTION SERVICE**

### **Corporate Identity**

**7.1** All the CPS offices in Wales where the public will be admitted when producing any documentation that expresses CPS corporate identity, will issue this documentation bilingually, giving the name and address of the office of issue.

### **Signs**

**7.2** Every sign in CPS offices in Wales will be bilingual. In public areas posters will be in Welsh and English.

### **Publishing and Printing Material**

**7.3** Material published for the public will be produced bilingually, with Welsh and English versions together in one document set out on parallel pages. The CPS does not charge for supplying its publications to the public.

### **Forms**

**7.4** Forms for general public use and any explanations that go with them will be available in both English and Welsh. We will produce as many forms as possible in bi-lingual format, but where a single document would be too lengthy, separate English and Welsh versions of the form will be made equally accessible to the public. All forms for general public use will include a question about language choice.

**7.5** The CPS has contracted with a national IT company to produce a computer system for all CPS offices in Wales. Any new IT system will comply with the Welsh Language Act, and with the guidelines on bilingual software standards issued by the Board.

**7.6** The CPS will publish its strategic plan, the annual reports of the four CPS Areas, together with all publications prepared for the use of the public in Wales will be available in bi-lingual format.

## 7 DELWEDD GYHOEDDUS GWASANAETH ERLYN Y GORON

### Delwedd Gorfforaethol

- 7.1** Yn holl swyddfeydd y CPS yng Nghymru ble bydd y cyhoedd yn cael mynediad, wrth baratoi unrhyw ddogfennau sy'n cyfleu delwedd gorfforaethol y CPS, byddwn yn cyhoeddi'r dogfennau hyn yn ddwyieithog, gan roi enw a chyfeiriad y swyddfa sy'n eu cyflwyno.

### Arwyddion

- 7.2** Bydd pob arwydd yn swyddfeydd y CPS yng Nghymru yn ddwyieithog. Mewn manau cyhoeddus, fe fydd posteri yn Gymraeg ac yn Saesneg.

### Cyhoeddi ac Argraffu Deunydd

- 7.3** Bydd deunydd a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd yn cael eu cynhyrchu yn ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen, wedi'u gosod ar dudalennau paralel. Ni fydd y CPS yn codi am ddarparu ei gyhoeddiadau i'r cyhoedd.

### Ffurflenni

- 7.4** Bydd ffurflenni er defnydd y cyhoedd ac unrhyw esboniadau sy'n mynd gyda'r ffurflenni, ar gael yn Saesneg a Chymraeg. Byddwn yn cynhyrchu cymaint o ffurflenni â phosib ar ffurf ddwyieithog, ond ble byddai dogfen unigol yn rhy hir, bydd fersiynau Saesneg a Chymraeg ar wahân o'r ffurflen ar gael yn gyfartal i'r cyhoedd. Bydd pob ffurflen er defnydd y cyhoedd yn cynnwys cwestiwn am ddewis iaith.
- 7.5** Mae'r CPS wedi trefnu cytundeb gyda chwmni technoleg gwybodaeth cenedlaethol i lunio system gyfrifiadurol ar gyfer holl swyddfeydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yng Nghymru. Bydd unrhyw system technoleg gwybodaeth newydd yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg, a chyda'r canllawiau ar safonau meddalwedd dwyieithog a gyflwynir gan y Bwrdd.
- 7.6** Bydd y CPS yn cyhoeddi ei gynllun strategol, adroddiadau blynyddol pedwar Rhanbarth Gwasanaeth Erlyn y Goron, a bydd yr holl gyhoeddiadau er defnydd y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog.

### **Press Notices & Press Conferences**

- 7.7** If required Press notices will be prepared in Welsh and in English and the Area Press and Publicity Officer will send the appropriate version to the media. In the first instance the press notice will be sent according to the language preference of the media organisation to which it is sent. In press conferences the CPS will be ready to answer questions in Welsh – either directly or through an interpreter – according to the choice of the media organisation attending. The CPS in Wales will compile a list of media organisations with which it has dealings, and record which would prefer to receive its communications in Welsh or English.

### **Publicity Campaigns and Exhibitions**

- 7.8** All publicity campaigns will communicate messages to the public in both Welsh and English. All of our exhibitions and displays for the public in Wales will be bi-lingual. If we conduct any public surveys to gather information or test public opinion we will do so in both Welsh and English.

### **Public Notices and Recruitment Advertising**

- 7.9** Public notices in Wales based newspapers will normally be bi-lingual, although advertisements placed in Welsh language publications will be in Welsh only. Staff recruitment advertising in Wales based newspapers will be bi-lingual, and for posts where Welsh speaking is essential we will advertise in Welsh with a brief explanation in English. Advertisements in the major UK newspapers will normally be in English only. All posts in Wales advertised by the online recruitment service will be advertised bi-lingually. A bi-lingual recruitment pack will be distributed in all instances and when interviewing the Board will enquire beforehand about the preferred language choice and will either ensure that Welsh speakers are members of the Board, or arrange for an interpreter. Where the CPS conducts awareness raising or recruitment exercises in schools or colleges the CPS will provide Welsh Language speakers where it knows in advance that a proportion of those participating will be Welsh speakers.

### **Services Provided on our Behalf by Other Organisations**

